

# Senedd y Myfyrwyr

Hysbyswyd aelodau'r Senedd Myfyrwyr ar bryd cynhelir y cyfarfod nesaf:

**Dydd Mawrth 10 Rhagfur 2019**  
**Ystafell 4J, 4ydd Llawr Undeb y Myfyrwyr 6yh**

---

## Agenda

Cysylltwch â Thîm Llais Myfyrwyr ar 02920 781434 neu e-bostiwch [democracy@caerdydd.ac.uk](mailto:democracy@caerdydd.ac.uk) i drafod unrhyw ychwanegiadau neu ddiwygiadau sydd gennych, neu i gael rhagor o wybodaeth ar unrhyw un o'r eitemau ar yr agenda isod.

### **Adran I Eitemau Sylfaenol:**

- A. Ymddiheuriadau
- B. Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### **Adran II Eitemau a Gyflwynwyd:**

- A. Creu Wal Lennon yn yr Undeb
- B. Gwneud cardiau adnabod myfyrwyr yn rhad ac am ddim neu yn rhatach

### **Adran III Unrhyw Fusnes Arall:**

- 1. Cynigion sy'n darfod

Bydd y cyfarfod nesaf yn digwydd am 6yh ddydd Mawrth 28 Ionawr yn 4J, Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, Plas-y-Parc.

**ADRAN I****C. Cofnodion y cyfarfod blaenorol****Cofnodion y Senedd Myfyrwyr****Dydd Iau 19 Tachwedd 19****Eitemau Sylfaenol****A. Ymddiheuriadau**

Derbyniwyd

**B. Croeso gan y Cadeirydd**

Cadarnhau nad oes neb eisiau siarad Cymraeg - cadarnhawyd nad oedd unrhyw un yn bresennol eisiau siarad drwy gyfrwng y Gymraeg.

**C. Cofnodion ers y tro diwethaf**

Diwygiad i Dudalen 7 - newidiodd JP 16/17 i 17/18

Cadarnhawyd y cofnodion gyda'r diwygiadau

**Adran II Eitemau Undeb y Myfyrwyr****A. Ethol yr Is-Gadeirydd**

Roedd tri ymgeisydd ar gyfer rôl Is-gadeirydd y Senedd Myfyrwyr: Liam Powell, Christopher Dunne, a AAE (Ail agor enwebiadau).

Etholwyd Christopher Dunne.

**B. Cyllideb Undeb y Myfyrwyr**

Darparodd JM ddiweddariad ar gyllid Undeb y Myfyrwyr (Ymgysylltiad a Chyfranogiad).

Cwestiwn gan CD ynghylch os oedd cyflog swyddogion sabothol yn cael eu cynnwys o fewn y cyllid hwn yn ogystal ag os oedd unrhyw gynnydd yn y maes hwnnw.

Cadarnhaodd JM bod yr hollol gyllid yn cynnwys cyflog y swyddogion sabothol.

**C. Adroddiad gan yr ymddiriedolwyr**

Ymunodd Jayne Sadgrove Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, trafodwyd adnewyddu'r llawr cyntaf undeb y

myfyrwyr, cafodd Grŵp Tasg a Gorffen ar yr Argyfwng Hinsawdd ei greu, cymeradwywyd Cytundeb Perthynas rhwng y brifysgol ac undeb y myfyrwyr, a cafodd y brydles ar gyfer yr adeilad undeb y myfyrwyr ei gymeradwyo hefyd.

#### D. Diwygiadau Is-ddeddfau

Cyflwynodd TE y Diwygiadau Is-ddeddfau i ddisodli'r ddarpariaeth o amgylch pleidleisio am syniadau a gyflwynwyd. Nododd bod y newidiadau hyn oherwydd rhesymau gweinyddol yn unig.

Gofynnwyd cwestiynau o amgylch newidiadau i'r Pwyllgor Craffu fod yn gwbl etholedig o ganlyniad i ddiwygiadau a gyflwynwyd y tro diwethaf. Nododd TE bod y Bwrdd wedi dewis i beidio derbyn y diwygiad i'r Is-ddeddfau. Gofynnodd y Senedd wedyn am esboniad pam.

**GWEITHRED:** ar gyfer Llywydd yr UM i ddarparu diweddariad ar gyfer y tro nesaf.

#### E. Adolygiad gweinyddol o Femorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu

Cyflwynodd JY yr Adolygiad Gweinyddol o Femorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasu gan nodi bod y newidiadau yn unol ag amserlen targedau gofynnol yr adolygiad

Cwestiwn gan CD o amgylch diddymu'r pwyllgorau a Senedd Myfyrwyr.

Cafodd ei nodi bod y bod cyfeiriad at Senedd y Myfyrwyr ym Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasu wedi eu gwneud mewn camgymeriad.

Cwestiynau ac eglurhad o amgylch disodli is-bwyllgorau penodol, yn bennaf, y grŵp arfarnu Prif-weithredwr. Cafodd ei nodi nad oes unrhyw fwriad i ddisodli'r pwyllgor dan sylw. Rhoddwyd eglurhad nad yw'r pwyllgorau yn cael eu dewis ar gylched blynyddol yn hytrach maent yn seiliedig ar angen.

### Adran III Eitemau a Gyflwynwyd

#### A. Newid safle Swyddog Ymgyrch o fod yn Swyddog LGBT+ (Safle Merched) i fod yn Swyddog LGBT+ (Safle Traws)

Cyflwynodd JM y diwygiad, gan ddarparu cyd-destun y rolau presennol y LGBT+ Merched a LGBT+ Agored a'r angen buan am newid gan lechyd Meddwl am gynrychiolaeth mwy eang. Rhoddwyd eglurhad ar pam nad oedd awgrym o greu trydydd safle LGBT+ a fyddai wedi golygu bod y safleoedd presennol dal mewn grym. Nodwyd ystyriaethau o amgylch niferoedd y myfyrwyr sy'n ymgeisio am y safleoedd. Tanlinellodd JM y byddai'r safle yn cadw lle ar gyfer cynrychiolaeth i fyfyrwyr Traws.

Siaradodd EA (Edel) yn erbyn y cynnig a nododd y dylai'r swyddog gael ei gynrychioli gan un swyddog yn hytrach na dau. Cymharodd EA y cysyniad hwn gyda chael cynrychiolaeth ychwanegol ar gyfer myfyrwyr rhyngwladol. Nododd EA bod y gymuned traws yn teimlo yn fwy o ran o'r gymuned myfyrwyr ac awgrymu y dylid cael un swyddog nid dau.

Siaradodd ZE o blaid y cynnig ac esboniodd mai bwriad y cynnig oedd i gynnwys a chynrychioli

myfyrwyr Traws a bod y system o gael dau swyddog yn gweithio. Yn nodi yr amgylchedd Trawsffobig a sut byddai'r rôl yn gweithio.

Siaradodd CP yn erbyn y cynnig gan nodi y dylid ffocysu er wella gwasanaethau lles y brifysgol yn hytrach na diwygio safleoedd y swyddogion.

Siaradodd JW dros y cynnig gan esbonio bod y newid yn un gweinyddol ac eu bod yn ymwybodol o fyfyrwyr di-deuaidd na ymgeisiodd oherwydd teitl y rôl.

Trafodaeth Cyffredinol ar y Cynnig

Gofynnwyd cwestiynau o amgylch sut gellid sicrhau bod Merched LGBT+ yn parhau i gael eu cynrychioli os nad oedd y safle yn bodoli. Cafodd ei gadarnhau o fewn y cynnig ei hun bod dealltwriaeth y bydd cynnydd mewn cydweithio rhwng swyddogion ymgyrch.

Gofynnwyd cwestiwn yn gofyn am gyllid ychwanegol a fyddai'n golygu cyflwyno rôl newydd heb ddisodli unrhyw rolau presennol. Roedd yr ymateb i'r cwestiwn yn nodi bod cyllid yn broblem ychwanegol.

Gofynnwyd cwestiwn arall ar pam fod dau rôl LGBT+ yn bodoli. Cafodd ei esbonio mai gan amlaf dynion Cis yw'r rhai sy'n ymgeisio am y rolau, mae creu ail le wedi ei gadw yn sicrhau cynrychiolaeth. Yn nodi bod y rhesymeg yr un peth ar gyfer y cynnig hwn.

Cwestiwn pellach yn ymwneud â sut y caiff ei sicrhau bod Merched LGBT+ yn cael eu cynrychioli yn y safleoedd. Nododd JM ei fod yn gyfrifoldeb ar y Pwyllgor Craffu i sicrhau eu bod yn ymgymryd â'r rôl mewn ffordd addas. Nododd ZE hefyd bod Swyddogion Ymgyrch yn cynnal eu cymdeithasau eu hunain, mae'r safleoedd wedi eu cynllunio i sicrhau bod adrannau o'r gymuned yn cael eu cynrychioli, mae hwn yn gysyniad tebyg.

Gofynnodd HD am gadarnhad bod gwahanol fathau o gynrychiolaeth o fewn y gymdeithas, cafodd hyn ei gadarnhau.

#### B. Cyfleoedd rhyngddisgyblaethol i fyfyrwyr

Siaradodd CP dros y cynnig ac esboniodd mai pwrpas y cynnig hwn yw i leihau seilos ar draws academia, yn enwedig ym Mhrifysgol Caerdydd. Yn nodi ffioedd dysgu a bod profiadau yn amrywio o ddisgyblaeth i ddisgyblaeth. Rhoddodd y cynigydd gyd-destun pellach o greu diwylliant ar draws y brifysgol sy'n creu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr. Nododd CP y prosiect Grand Challenges a gynhelir gan y Brifysgol fel enghraifft o sut mae hyn mewn bodolaeth yn barod.

Cododd LP bryder nad yw'r ystafelloedd darlithio yn addas i gael eu defnyddio oherwydd diffyg gofod i fyfyrwyr presennol mewn rhai ysgolion.

Cododd JG bryder tebyg o amgylch meintiau cyrsiau a chynnig bod recordiau darlithoedd ar gael i bob myfyriwr yn lle. Nododd JG nad yw myfyrwyr JOMECC yn gallu cael gafael ar adnoddau y tu allan i'w rhaglenni ac ysgolion eu hunain ar hyn o bryd.

Eglurodd RB nad oeddynt yn siarad yn erbyn y cynnig nac y cysyniad o weithgaredd rhyngddisgyblaethol ond nododd nad yw'r strwythur bresennol yn addas ar gyfer amcanion y cynnig hwn. Defnyddiwyd CUROP (Rhaglen Cyfleodd Ymchwil Is-raddedig Caerdydd) fel enghraifft o sut mae ymchwil rhyngddisgyblaethol yn digwydd. Nododd RB ymhellach bod trafodaethau UCU o amgylch llwyth gwaith yn ogystal â'r cyswllt i'r rhethreg a ddefnyddir yn Trawsnewid Caerdydd i newid y broses rheoli.

Trafodaeth gyffredinol

Siaradodd SK o blaid y cynnig, gan nodi mater sydd wedi codi yn LAWPL lle roedd modiwl mewn Cyfraith Cyfryngau gydag adnoddau penodol a oedd ar gael i fyfyrwyr yn JOMECC yn unig. Nododd SK bod y syniad o agor mwy o lyfrgelloedd a chaniatáu gofod i siarad ag arweinwyr tiwtor yn ddefnyddiol. Cadarnhawyd hyn o safbwynt JOMECC gan JG.

Gofynnodd EA am eglurhad os yw'r cynnig yn golygu cael mynediad at unrhyw ddsbarth fel y mynnir neu os yw'n golygu mynediad at ddefnyddiau dysgu canolog.

Atebodd CP y bydd yn rheoleiddio'r broses yn seiliedig ar sail academaidd-wrth-academaidd.

Nododd EA bod hyn o bosib wedi ei sefydlu yn barod. Bydd caniatâd mynediad at Ddysgu Canolog yn cael ei ofyn ar sail fesul achos.

Cynigiodd EA ddiwygiad:

“y mynediad rydyn ni ei angen yw mynediad at ddysgu canolog a modiwlau ar ôl yr arweinwyr modiwl.”

Yn nodi nad yw'r strwythur presennol yn caniatáu hyn ac er mwyn gwneud i'r cynnig weithio mae'n rhaid i'r diwygiad gael ei gymeradwyo.

Cwestiynau i EA ar y diwygiad:

TK i roi'r nerth i fyfyrwyr i siarad ag academyddion i weld os ydyn nhw'n gallu.

Atebodd EA bod gan cynigion i'r senedd myfyrwyr strwythur, byddai'r diwygiad a gynigwyd yn galluogi myfyrwyr i ofyn caniatâd gan academyddion i ddod i'r ddarlith o flaenllaw.

Gofynnodd LP os mai bwriad cynnig y diwygiad yw rhoi'r gallu i ddarlithwyr i wrthod.

Atebodd EA mai yr ofn o gynyddu meintiau dosbarthiadau a fyddai yn effeithio darlithwyr ac bod y diwygiad o amgylch creu yr opsiwn i'r myfyrwyr sy'n gofyn.

Siaradodd CP yn erbyn y diwygiad gan nodi nad cysyniad y cynnig yw i fod yn rhagysgrifiadol yn hytrach beth fydd y weithred o ganlyniad i'r cynnig. Nodi bod y cynnig yn ymwneud â rhyngweithio dydd i ddydd rhwng y gymuned academaidd a bod uwch reolwyr y brifysgol yn atebol i'r weledigaeth ar gyfer y brifysgol.

4 pleidlais o blaid y diwygiad

16 pleidlais yn erbyn y diwygiad

5 ymataliad

### ***Diwygiad yn methu***

Cwestiwn JM i CP - mae'r senedd yn cefnogi'r syniad o waith rhyngddisgyblaethol yn hytrach na mwy o ddiwygiadau

Cynnig trefniadol gan JM i fynd i bleidlais, cafodd y cynnig trefniadol ei ganiatáu gan JL.

Siaradodd JM o blaid y cynnig trefniadol i ofyn i'r Senedd bleidleisio ar y cynnig nawr ac i Seneddwyr ymgysylltu ag eraill drwy ymgynghori ar faterion megis manylion ar sut y dylid deddfu'r cynnig.

Siaradodd RB yn erbyn y cynnig trefniadol gan fynegi y dylid cael trafodaeth pellach a nododd ymhellach y pwysau ar academyddion, yn enwedig gyda streiciau UCU presennol.

Pleidlais cynnig trefniadol:

Roedd angen 15 pleidlais o blaid y cynnig trefniadol er mwyn i'r cynnig lwyddo.

Pleidleisiodd 20 o blaid y cynnig trefniadol.

Pleidleisiodd 4 yn erbyn y cynnig trefniadol.

Cafwyd 1 pleidlais ymatal ar y cynnig trefniadol.

### ***Llwyddodd y cynnig trefniadol i fynd i bleidlais***

Gofynnodd JW pe byddai hyn yn cynnwys grwpiau ffocws. Nododd JP pe byddai'r cynigion yn pasio y byddai'r dewis yn nwylo tîm y swyddogion

Adran IV      Unrhyw Fusnes Arall

1. Cynigion yn darfod

Mwy o fwyd fegan yn y Taf - nododd JP y gall unrhyw fyfyrwr gyflwyno syniad i'r Senedd nesaf i'r

2. Derbynnnydd Syniadau

Cafodd ei nodi bod myfyrwyr yn cael eu hannog i gyflwyno syniadau drwy'r derbynnnydd syniadau.

3. Cofrestrwch i bleidleisio



Atgoffwyd Seneddwr i gofrestru i bleidleisio.

#### 4. CCB

Atgoffwyd Seneddwr bod y CCB yn cael ei gynnal ar Ddydd Iau 21<sup>ain</sup> Tachwedd.

## ADRAN II

### A. Creu Wal Lennon yn yr Undeb

Beth yw'r broblem?

Os ydych chi wedi darllen y newyddion, mae Hong Kong nawr yn dioddef anawsterau - Chwyldro. Rydw i'n fyfyrwr ac yn brotestiwr o Hong Kong. Rydw wedi bod yn protestio dros yr Haf. Mae ein rhyddid yn cael ei gymryd gan ein llywodraeth ac mae'r heddlu wedi camddefnyddio eu grym. Dim bwys pa mor bell ydych chi o Hong Kong neu beidio, rydw i'n gobeithio y gallwch chi ein cefnogi ni.

Beth yw eich syniad?

Rydw i'n gobeithio y gall yr Undeb roi gofod i ni greu "Lennon walls" er mwyn cefnogi'r chwyldro sy'n digwydd yn HK. Hefyd, mewn gwlad gyda rhyddid barn, rydw i'n meddwl mai dyma'r ffordd orau i ganiatáu myfyrwyr fynegi eu barn ar y chwyldro hwn. CAERDYDD RYDYN NI'N CYSYLLTU! Ac yn olaf, RHYDDID I HONG KONG, CHWYLDRO EIN HOES! PUMP GORCHYMNUN, DIM LLAI!

### B. Gwneud cardiau adnabod myfyrwyr yn rhad ac am ddim neu yn rhatach

Beth yw'r broblem?

Er mwyn diweddarau eich cerdyn adnabod myfyrwr os yw eich ymddangosiad wedi newid, neu gael un newydd os caiff ei golli neu ei ddwyn, ar hyn o bryd gofynnir am ffi prosesu. Gall hyn achosi i fyfyrwyr beidio cael cerdyn adnabod newydd.

Beth yw eich syniad?

Dylid gwneud cardiau adnabod newydd yn rhad ac am ddim, gan eu bod yn hanfodol, neu dylid gostwng y gost o gael un newydd.

